Cronfa Adfer Ddiwylliannol Cymru - Cymorth Llawrydd

Cwestiynau a ofynnir yn aml

Cyffredinol

Beth yw diben y Gronfa Gweithiwr Llawrydd?

Diben y Gronfa yw cefnogi Gweithwyr Llawrydd sy'n gweithio yn y sectorau diwylliannol sy'n wynebu heriau ariannol yn y cyfnod rhwng Ebrill 2021 a Medi 2021 o ganlyniad i'r achosion o COVID-19.

Faint o gyllid sydd ar gael?

Mae cyfanswm o £4m ar gael i gefnogi gweithwyr llawrydd ledled Cymru.

Sut y caiff y cyllid ei ddarparu?

Bydd y cyllid yn cael ei ddarparu gan awdurdodau lleol yng Nghymru, ar ran Llywodraeth Cymru.

Rwyf wedi gwneud cais o'r blaen, a allaf ailymgeisio? Allwch chi ddefnyddio fy manylion presennol?

Gall pob gweithiwr llawrydd cymwys wneud cais, ond rhaid cyflwyno cais newydd.

Cymhwysedd

Pwy all wneud cais am grant y Gronfa Gweithiwr Llawrydd?

Mae cymorth ar gael i gynorthwyo gweithwyr llawrydd proffesiynol y mae gan eu gwaith ganlyniadau creadigol/diwylliannol uniongyrchol, sy'n gweithio yn y pum is-sector allweddol a dargedir gan y Gronfa Adferiad Diwylliannol:

• Y Celfyddydau;

• Y Diwydiannau Creadigol;

• Y Celfyddydau a Threftadaeth;

• Digwyddiadau;

Diwylliant a Threftadaeth.

Mae'r rhain yn sectorau eang, sy'n cwmpasu nifer o broffesiynau (mae ffeithlun Ffederasiwn y Diwydiannau Creadigol yn enghraifft ddefnyddiol) ac, mewn egwyddor, gellir derbyn ceisiadau gan weithwyr llawrydd yn y sectorau hyn. Fodd bynnag, sylwer, mae'r cyllid hwn yn benodol ar gyfer is-sectorau a rolau diwylliannol a chreadigol **a orfodwyd i roi'r gorau i weithio a/neu ei chael yn anodd i ail-ddechrau oherwydd effaith cyfyngiadau Covid-19**. Ni ddylai'r rhai mewn rolau sydd wedi gallu parhau ar lefelau blaenorol neu yn agos at weithgarwch gyda chymorth neu hebddo (e.e. penseiri, dylunwyr graffig a'r we, dylunwyr gemau, gweithwyr llawrydd TG a meddalwedd, ac ati) wneud cais.

Nid gweithwyr llawrydd sy'n gweithio mewn ffilm a theledu, gemau fideo, meddalwedd a diwydiannau adloniant digidol eraill yw'r rhai a fwriedir i dderbyn y cymorth hwn gan fod y marchnadoedd hyn bellach yn gweithredu ar lefelau arferol neu agos. Fodd bynnag, deallwn y gallai rhai rolau penodol gan gynnwys y rhai mewn ffilm a theledu barhau i gael eu heffeithio (e.e. awduron / cerddorion). Lle gellir dangos bod yr effaith hon yn ganlyniad i gyfyngiadau COVID-19, byddwn yn derbyn ceisiadau.

Ni fwriedir i'r Gronfa hon ychwaith gefnogi gweithwyr llawrydd yn y sector chwaraeon. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chwaraeon Cymru i drafod cefnogaeth i'r sector chwaraeon yng Nghymru.

A fydd cyllid blaenorol yn effeithio ar fy nghais?

Yn y cylch hwn rydym yn asesu incwm ac a yw ymgeiswyr wedi derbyn cyllid SEISS o'r blaen. Gallwch wneud cais o hyd os ydych wedi derbyn cymorth neu os oes gennych rywfaint o incwm, ond efallai eich bod mewn grŵp blaenoriaeth is ar gyfer derbyn y grant. Gweler y canllawiau am fwy o fanylion.

Rwy'n llawrydd, ond ni allaf ddarparu tystiolaeth o fewn yr amserlenni a nodir ym meini prawf y Gronfa oherwydd fy mod ar gyfnod o absenoldeb tadol / mamolaeth. A yw hyn yn fy ngwneud yn anghymwys?

Na, rydych yn gymwys i wneud cais. Fodd bynnag, byddem yn dal i fod eisiau gweld rhywfaint o dystiolaeth o'ch gwaith fel gweithiwr llawrydd. Er enghraifft, gallech ddarparu tystiolaeth y tu allan i'r paramedrau y cytunwyd arnynt a nodir yn y canllawiau – gan ddefnyddio'r flwyddyn 2018-9 er enghraifft, neu drwy ddarparu dogfennau ategol Gwnewch hyn yn glir ar eich cais yn Adran 2 o'r ffurflen.

Rwy'n llawrydd ond rwyf hefyd yn gweithio'n rhan-amser, a fyddai hyn yn fy ngwneud yn anghymwys? Os na, a fyddaf yn cael llai o arian?

Croesewir ceisiadau gan weithwyr llawrydd amser llawn a rhan-amser. Dyfernir yr un grant safonol o £2,500 yn y ddau achos, yn amodol ar fodloni meini prawf cymhwysedd ehangach. Fodd bynnag, nodwch fod y grant hwn wedi'i dargedu at weithwyr llawrydd sydd â'r angen mwyaf am gymorth oherwydd colli enillion o ganlyniad i bandemig COVID-19.

Rwy'n llawrydd, ond rwy'n gweithredu fel cwmni cyfyngedig. A yw hynny'n fy ngwneud yn anghymwys?

Na, os gallwch ddangos mai chi yw'r unig berson sy'n gweithredu fel rhan o'r cwmni cyfyngedig hwnnw ac y gallwch ddarparu manylion sy'n adlewyrchu eich cyfrifon blynyddol, byddech yn dal yn gymwys i wneud cais.

Rwyf wedi derbyn cymorth Grant Dechrau Busnes yn y gorffennol. A yw hynny'n fy ngwneud yn anghymwys?

Yn y cylch hwn rydym yn asesu incwm ac a yw ymgeiswyr wedi derbyn cyllid o'r blaen neu wedi cael incwm yn y flwyddyn Ebrill 2020 – Mawrth 2021. Gallwch wneud cais o hyd os ydych wedi derbyn cymorth neu os oes gennych rywfaint o incwm, ond efallai eich bod mewn grŵp blaenoriaeth is ar gyfer derbyn y grant. Gweler y canllawiau am fwy o fanylion.

Rwyf eisoes wedi derbyn cyllid gan Gynllun Cadw Swyddi / Y Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig Llywodraeth y DU, a allaf wneud cais o hyd?

Cewch. Os ydych wedi cael cymorth blaenorol naill ai gan Gynllun Cadw Swyddi'r Llywodraeth a'r Cynllun Cymhorth Incwm i'r Hunangyflogedig a'ch bod yn dal i wynebu heriau ariannol, rydych yn gymwys i wneud cais am y grant hwn. Fodd bynnag, dylech nodi bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi o fewn bandiau incwm i'r ymgeiswyr hynny nad ydynt wedi bod yn derbyn SEISS yn ystod y cyfnod Ebrill 2020 – Mawrth 2021.

A yw'r grant yn drethadwy?

Ydy. Bydd yn rhaid i chi ei ddatgan fel incwm gan mai pwrpas y gronfa yw cefnogi llif arian a disodli'r incwm a gollir oherwydd COVID-19. Os nad ydych yn siŵr o oblygiadau treth dylech ofyn am gyngor gan CThEM.

Y broses ymgeisio

Sut ydw i'n gwneud cais?

Gall unigolion wneud cais am y grant drwy ddefnyddio Gwiriwr Cymhwysedd y Gronfa Adferiad Diwylliannol ar wefan Busnes Cymru: https://fundchecker.businesswales.gov.wales/culture

Os ydych yn gymwys i wneud cais, cewch eich cyfeirio at wefan eich awdurdod lleol lle byddwch yn gallu cael mynediad i'r ffurflen gais ar-lein neu gallwch ofyn am y ffurflen gais.

Am faint alla i wneud cais?

Mae taliad untro o £2,500 ar gael i bob unigolyn, i helpu gyda llif arian parod ar unwaith i helpu drwy'r cyfnod y bu'r tarfu.

Pryd alla i wneud cais?

Mae'r Grant Gweithiwr Llawrydd ar agor i geisiadau o ddydd Llun 17 Mai 12.00 canol dydd, ac mae'n cau am 5pm ddydd Gwener 28 Mai am 17.00. Ni dderbynnir ceisiadau hwyr.

A fydd fformatau hygyrch o'r ddogfen ganllaw a'r ffurflen gais?

Bydd. Os oes unrhyw faterion hygyrchedd a allai eich atal rhag llenwi ffurflen gais ar-lein, ffoniwch linell gymorth Busnes Cymru ar 03000 6 03000

Sut ddylwn i lenwi'r ffurflen os na allaf gael mynediad i'r rhyngrwyd?

Os oes unrhyw broblemau hygyrchedd a allai eich atal rhag llenwi ffurflen gais ar-lein, ffoniwch linell gymorth Busnes Cymru ar 03000 6 03000.

Beth yw'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau?

Dylid derbyn ceisiadau erbyn 17.00 ddydd Gwener 28 Mai.

Beth os nad wyf mewn grŵp blaenoriaeth, a fydd mwy o gyllid ar gael?

Bydd ceisiadau'n cael eu blaenoriaethu yn unol â'r tabl yn y canllawiau. Os bydd arian ychwanegol ar gael o fewn cyfnod byr, efallai y bydd y rhai sy'n is yn y gorchymyn blaenoriaeth yn gallu elwa o gymorth, ond nid yw hyn yn gwarantu y bydd cyllid ychwanegol ar gael.

Rwy'n byw yn RhCT ond yn gweithio'n bennaf yng Nghaerdydd. I ba ALl ddylwn i gyflwyno fy nghais?

Dim ond i'r un awdurdod lleol yr ydych yn preswylio ynddo ar hyn o bryd y gallwch wneud cais, nid lle rydych yn gweithio.

Sut fydd ceisiadau'n cael eu harfarnu? A fydd y ceisiadau'n cael eu trin ar sail y cyntaf i'r felin?

Na, ar gyfer y cylch hwn, bydd asesiad yn cael ei wneud yn seiliedig ar eich sefyllfa incwm am y 2 flynedd ddiwethaf. Byddwn yn adolygu'r canlynol o'ch datganiad incwm ar y ffurflen gais:

• Incwm o waith llawrydd neu waith cyflogedig

• Lefel y SEISS a dderbyniwyd

• Unrhyw grantiau dewisol a dderbynnir

Bydd blaenoriaethu, gyda'r rhai sydd heb gael dim SEISS neu gymorth cyhoeddus arall hyd yma, ac wedi gostwng i ddim incwm neu incwm isel yn y flaenoriaeth uchaf.

Gweler y ddogfen ganllaw ar gyfer y tabl blaenoriaeth.

Pa mor gyflym fydda i'n cael gwybod a ydw i wedi bod yn llwyddiannus?

Bydd derbyn eich cais yn cael ei gydnabod o fewn 10 diwrnod gwaith, a'n nod yw prosesu ceisiadau am grant o fewn 30 diwrnod gwaith i'w derbyn. Gellir cynyddu'r amserlen hon mewn rhai amgylchiadau.

Gwneir penderfyniadau ar geisiadau yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarperir yn y ffurflen gais, tystiolaeth gysylltiedig a gwiriadau gwybodaeth a gynhelir o ffynonellau eraill. Rhaid cyflwyno'r holl wybodaeth sydd ei hangen. Os oes unrhyw ddata yn anghyflawn neu'n anghywir neu os yw'r dystiolaeth a ddarparwyd yn amlwg yn annigonol, byddwn yn cysylltu â chi, ond os na fydd ymholiadau wedi eu bodloni o fewn yr amserlen a bennwyd, caiff y cais ei wrthod.

Os yn llwyddiannus, pryd fyddaf yn derbyn y cyllid?

Os caiff ceisiadau eu cymeradwyo, byddwch yn derbyn cynnig grant drwy e-bost yn rhoi gwybod i chi am ddyfarnu'r grant. Bydd cynigion grant ar agor am 14 diwrnod – os na dderbynnir hwy o fewn y cyfnod hwn bydd y cynnig yn cael ei dynnu'n ôl. Telir grantiau ar y sail bod 100% o'r grant yn cael ei dalu ymlaen llaw.

Rhaid i ymgeiswyr dderbyn y cynnig grant drwy e-bost cyn y gellir talu.

A allaf apelio os nad wyf yn llwyddiannus?

Os bydd eich cais yn aflwyddiannus, byddwch yn derbyn e-bost yn amlinellu'r rheswm dros wrthod. Nid oes proses apelio. Mae gan yr Awdurdod Lleol ddisgresiwn llwyr o ran telerau'r gronfa.

Tystiolaeth / Dogfennau ategol

Beth yw diben gofyn am gyfriflen banc?

Mae cyfriflenni banc yn cael eu defnyddio i gadarnhau y manylion y banc rydych wedi'u cyflwyno ac asesu eich cais. Mae angen datganiad o incwm a dderbyniwyd yn y blynyddoedd Ebr 2019 – Mawrth 2020 ac Ebrill 2020 – Mawrth 2021, gyda cyfriflenni banc yn adlewyrchu'r incwm hwn ar gyfer misoedd Ionawr – Mawrth 2021.

Os ydych yn defnyddio mwy nag un cyfrif, rhowch y cyfriflenni hyn hefyd.

Faint o gyfriflenni banciau y mae'n rhaid imi eu darparu a pha mor ddiweddar y dylent fod?

Mae angen cyfriflenni am dri mis rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2021. Os ydych yn defnyddio mwy nag un cyfrif, rhowch y cyfriflenni hyn hefyd.

A oes rhaid i mi ddarparu cyfriflenni banc personol neu a oes angen iddynt fod yn gyfriflenni cyfrif busnes?

Gallwch ddarparu cyfriflenni cyfrifon personol neu fusnes, yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

Sut y dylid cyflwyno cyfriflenni banc? A all y rhain fod yn sgrin lun o'm ap bancio?

Mae dogfennau wedi'u sganio a lluniau o ddatganiadau papur yn fathau derbyniol o dystiolaeth at y diben hwn. Mae lluniau o sgriniau sy'n dangos datganiadau llawn yn dderbyniol, ond nid yw sgrin luniau o apiau bancio ffonau symudol yn dderbyniol gan eu bod yn anodd iawn eu prosesu'n effeithiol.

Rwy'n berfformiwr, ac yn defnyddio enw gwahanol fel perfformiwr i'm henw cyfreithiol. Bydd rhywfaint o'r dystiolaeth a ddarparaf yn cynnwys fy enw perfformio. A yw hyn yn iawn?

Oes, fodd bynnag, bydd angen i chi ddarparu rhywfaint o dystiolaeth ategol sy'n cysylltu eich enw cyfreithiol â'ch enw perfformio.

A oes angen darparu'r holl 'wybodaeth arall', neu rai yn unig? Er enghraifft, a oes angen CV neu a yw hyn yn ddewisol?

Oes. Rhaid darparu'r holl wybodaeth a restrir o dan 'gwybodaeth arall'. Ni fyddwn yn gallu prosesu eich cais os yw'n anghyflawn neu os ydych wedi methu â chyflwyno'r dogfennau angenrheidiol.

Maent fel a ganlyn:

• Mae angen datganiad o incwm a dderbyniwyd yn y blynyddoedd Ebr 2019 – Mawrth 2020 ac Ebrill 2020 – Mawrth 2021, gyda chyfriflenni banc yn adlewyrchu'r incwm hwn ar gyfer misoedd Ionawr – Mawrth 2021. Bydd cyfriflenni banc yn ein galluogi i weld taliadau SEISS a wnaed yn y cylch diweddar.

• Rhif Cyfeirnod Treth Unigryw (UTR) a'ch P60 diweddaraf

• CV (neu gyfrif LinkedIn manwl).

Beth ddylid ei gynnwys yn y CV cysylltiedig?

Byddem yn disgwyl i'r ymgeisydd ddarparu CV safonol i gynnwys eich enw, cyfeiriad, manylion sgiliau a chymwysterau, cyflogaeth / gwaith blaenorol.

Os na allwch ddarparu CV, bydd cyfrif LinkedIn manwl yn cael ei dderbyn.

Pa fath 'arall' o brawf adnabod sy'n dderbyniol?

Ceir rhestr benodol o fathau 'eraill' o brawf sy'n dderbyniol. Trwydded yrru bapur neu dystysgrif fabwysiadu yw'r rhain.

Cyflwynwch ddogfennau wedi'u sganio, nid y rhai gwreiddiol.

Wedi dyfarnu

Pa waith monitro fydd yn cael ei wneud?

Bydd ymarfer monitro wedi dyfarnu yn cael ei gynnal lle gellir cysylltu â chi i gael eich adborth ar weithredu'r Gronfa, i gael gwybodaeth am sut mae'r grant wedi eich helpu ac i ofyn a ydych yn dal i weithio fel gweithiwr llawrydd yng Nghymru.

Byddwn yn cysylltu â chi os ydych wedi ymrwymo i'r Adduned Gweithiwr Llawrydd.

Adduned Gweithiwr Llawrydd

Beth yw'r 'Adduned Gweithiwr Llawrydd'?

Un o'r ymrwymiadau allweddol sy'n cyd-fynd â'r cyllid hwn yw ein huchelgais i ddatblygu a chyflawni addewid gweithiwr llawrydd. Yn aml, mae gweithwyr llawrydd proffesiynol yn cymryd rhan weithredol yn eu cymuned, gan wneud cyfraniad cadarnhaol i'n lles **cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd**. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru alluogi diwylliant bywiog a iaith Gymraeg ffyniannus yn ogystal â meddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda pobl, cymunedau a'i gilydd. Bydd yr Adduned Llawrydd yn helpu i greu partneriaeth rhwng gweithwyr llawrydd creadigol a chyrff cyhoeddus i gyflawni hyn, ac yn helpu'r sector cyhoeddus i ysgogi eich sgiliau allweddol fel gweithiwr llawrydd yn y sectorau diwylliant i'n cynorthwyo i ddod â chreadigrwydd a dychymyg i bob agwedd ar fywyd cyhoeddus.

Gallai hyn olygu creu atebion ar y cyd â'r gymuned, gan gyfrannu at gynlluniau datblygu lleol a datblygu neu ddod â dulliau newydd o ymdrin â phrosiectau cyfalaf. Gallai hyn fod mewn meysydd fel diwylliant i iechyd neu ddatblygu cynaliadwy ac

amgylchedd adeiledig. Efallai y bydd gennych eisoes brofiad o weithio ym maes y cyhoedd gyda phartneriaid, bod yn artist sy'n ymgysylltu'n gymdeithasol, yn aelod neu'n ymddiriedolwr Cymdeithas Rieni ac Athrawon neu yn weithredol yn eich cymuned gan ddefnyddio eich profiad o fywyd i wneud newidiadau cadarnhaol.

Sut fydd yr Adduned Gweithiwr Llawrydd yn gweithio'n ymarferol?

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu gweithgor o randdeiliaid allweddol i ddatblygu syniadau am yr addewid llawrydd. Mae'r gweithgor yn cynnwys cynrychiolwyr o'r gymuned lawrydd, undebau a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

Os oes gennych ddiddordeb bod yn rhan o hyn, dewiswch yr Adduned Gweithiwr Llawrydd. Byddwn yn defnyddio eich manylion i'ch hysbysu a'ch cynnwys mewn datblygiadau. Rydym yn gwerthfawrogi sgiliau a phrofiad gweithwyr llawrydd. Byddem yn disgwyl i unrhyw waith a wneir gan weithwyr llawrydd o ganlyniad i'r Adduned Gweithiwr Llawrydd fod yn waith cyflogedig.

Oes rhaid i mi gofrestru ar gyfer yr Adduned Gweithiwr Llawrydd?

Na, nid oes rhaid i chi gofrestru ar gyfer yr Adduned Gweithiwr Llawrydd er mwyn derbyn y cyllid hwn. Fodd bynnag, mae manteision i chi fel gweithiwr llawrydd wrth gofrestru ar gyfer yr addewid hwn, fel cyfleoedd i gael gwaith cyflogedig.

Rwyf wedi cofrestru ar gyfer yr Adduned Gweithiwr Llawrydd, a oes angen i mi gofrestru eto?

Na, os ydych eisoes wedi ymrwymo i'r addewid nid oes angen i chi ei wneud eto, byddwn mewn cysylltiad ynghylch hyn maes o law.

Os byddaf yn dewis peidio â llofnodi'r Adduned Gweithiwr Llawrydd, a fydd fy nghais yn cael ei drin yn llai ffafriol?

Na, bydd eich cais yn cael ei asesu yn erbyn meini prawf cymhwysedd yn unig. Nid yw'r Adduned Gweithiwr Llawrydd yn rhan o hyn.